

CYFLEUSTER LLES ADEILADAU'R GORON

Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion

Arolwg Safonau Gwasanaethau yn Wrecsam

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cynnwys

Geiriau anodd 3

Cyflwyniad 6

Cwestiynau a sut y gwnaethom ofyn 8

Y Cwestiynau 10

Ymatebion 11

Beth oedd ein casgliadau 13

Beth sydd ar goll i bobl sydd ag anableddau yn Wrecsam? 20

Sut ydych yn meddwl gallwn wella? 22

Themâu 23

Camau nesaf 25

Cyfranwyr 27

Geiriau anodd

Gall rhai geiriau fod yn anodd eu deall.

Mae'r rhain wedi'u hesbonio isod.

Pan ddefnyddir y geiriau yn ddiweddarach yn y llyfryn fe'u dangosir mewn ysgrifen las.

Pan welwch eiriau mewn ysgrifen las gallwch ddychwelyd i'r dudalen hon i weld beth maent yn ei olygu.

Dadansoddi:

Edrych ar.

Meddwl am.

Edrych yn agos ar.



Themâu:

Pwyntiau tebyg.

Straeon.

Categorïau.

Adolygwr:

Gwirio.

Edrych dros.

Trydydd sector:

Cymorth a gynigir i chi ond nid gan y Gwasanaethau Cymdeithasol lleol na'r Bwrdd Iechyd.

Er enghraifft:

- AVOW.
- Melyn a Glas.
- Yr amgueddfa.

Cynhwysiant ac Amrywiaeth:

Cynnwys pawb.

Mae hyn i bawb, sy'n golygu cael gwared ar rwystrau a allai eu hatal rhag cael eu cynnwys.

Rhwystrau fel cyfathrebu, anableddau, diwylliant a gwahaniaethu.

Ymylol:

Wedi'u gwthio i un ochr.

Wedi'u rhoi gyda'i gilydd mewn un grŵp.

SGW:

Safonau Gwasanaethau Wrecsam.

Safonau Gwasanaethau Wrecsam (**SGW**) yn grŵp o ddinasyddion sy'n defnyddio gofal cymdeithasol.

Mae **SGW** yn rhoi eu hamser a'u gwybodaeth i wella gwasanaethau.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Wrecsam yn datblygu Adeiladau'r Goron i wneud lle newydd.

Y Canolbwynt Lles fydd hwn.

Bydd gan y lle newydd hwn ychydig o dimau gwasanaethau cymdeithasol ac Iechyd.

Bydd yno hefyd le ar gyfer Iechyd a Lles y Gymuned.

Adeilad Newydd y Goron.



Gwnaeth **SGW** holiadur i ofyn rhai cwestiynau i'r cyhoedd yn Wrecsam.

Roedd angen i ni wybod beth sydd ar goll a beth ddylai fod yn y lle newydd hwn.

I ddarganfod yr hyn sy'n dda yn Wrecsam ym marn y cyhoedd.

Yr hyn sydd ar goll ar gyfer pobl anabl a'u gofalwyr yn eu barn nhw.

Arolwg yw hyn.

Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthym pa atebion a roddodd cyhoedd Wrecsam i arolwg **SGW**.

Gall gwybod yr atebion sicrhau bod y canolbwynt Iechyd a Lles Cymunedol yn dda ar gyfer y dref.

Mae ei angen arnom i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau a lles dinasyddion Wrecsam.

Cwestiynau a sut y gwnaethom ofyn

Roedd yr arolwg ar 'Eich Llais' sydd ar dudalen rhyngrwyd Cyngor Wrecsam.

Roedd yr arolwg hefyd ar gyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a'r wasg.

Rhannwyd trwy Asiantwyr Cymunedol a'r rhwydweithiau sy'n bodoli gan gynnwys:

- AVOW.
- Rhwydwaith cydgynhyrchiad Cymru.
- Cymdeithas Cyngor ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru (CACGC).
- Darparwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol.

Roedd yr arolwg yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd hefyd mewn fersiynau safonol a Hawdd eu Darllen.

Defnyddiodd y grŵp **SGW** gwestiwn 4+1 yr oeddent yn ei adnabod yn dda.

Roedd hyn yn help i ddatblygu'r holiadur.

Teimlai aelodau **SGW** y byddai hyn yn helpu pobl i drefnu eu meddyliau a'u syniadau



Mae'r dull 4+1 yn ffordd dda o gynllunio'ch camau nesaf.

Y Cwestiynau

Gofynnodd yr arolwg 4 cwestiwn i bobl ynglŷn â'u barn a'u profiadau o fyw yn Wrecsam.

1. Pa bethau sy'n dda i bobl sydd ag anableddau yn Wrecsam?
2. Beth hoffech chi weld mwy ohono yn Wrecsam?
3. Beth sydd ar goll i bobl sydd ag anableddau yn Wrecsam?
4. Sut ydych yn meddwl gallwn wella?

+1 Beth ddylid ei wneud nesaf?

Ymatebion

Rhoddodd 42 o bobl atebion i'r arolwg.

Yr **adolygwr** yw'r unigolyn a edrychodd ar yr holl atebion.

Yna, bydd yr **adolygwr** yn rhoi trefn ar yr holl atebion.

Bydd yr **adolygwr** yn trefnu'r atebion yn **themâu**.

Mae'r atebion i'r cwestiwn wedi cael eu **dadansoddi**.

Dysgodd yr **adolygwr** pa **themâu** ddaeth allan o'r cwestiynau

Eglurir y **themâu** ar dudalen 23.

Helpodd y grŵp **SGW** i **ddadansoddi'r** ymatebion.

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Helpodd **SGW** i edrych ar yr hyn y mae pobl Wrecsam ei eisiau o'r Hyb.

Beth oedd ein casgliadau

Daethom o hyd i'r negeseuon pwysig o'r atebion i'r arolwg.

Mae'r adran hon yn edrych ar sut mae'r **themâu** yn dod o'r atebion i'r arolwg.

"Pa bethau sy'n dda i bobl sydd ag anableddau yn Wrecsam?"

"Beth hoffech chi weld mwy ohono yn Wrecsam?

Mae'r rhain yn ddau gwestiwn gwahanol.

Roedd yr atebion yn dangos nad oedd pobl yn meddwl amdanyn nhw ar wahân.

Roedd yr atebion yn dangos bod pobl eisiau gweld mwy o bethau da.

Roedd Mynediad a Chyfleusterau Hygyrch yn rhan o lawer o'r atebion.

Soniodd pobl am fynediad.

Gall mynediad olygu sut rydym yn mynd i mewn i lefydd.

Gall mynediad olygu a yw ar gael ar eich cyfer chi.

Soniodd pobl am fynediad ar sut i gyrraedd llefydd.

Fel rampiau mynediad hawdd i'r farchnad, symudedd mewn siopau.

Mae toiledau hygyrch yn enghraifft dda o fynediad.

tŷ pawb

Marchnadoedd —— Cymuned —— Celfyddydau
Markets —— Community —— Arts

Dyma ddywedodd rhai pobl am fynediad da:

"Tŷ Pawb - yn arbennig y cyfleusterau tolied sy'n hollol hygyrch"

Dyma lle dywedodd pobl fod mynediad da yno

- Eglwys San Silyn
- y mwyafrif o siopau
- Gardd Furiog Fictoraidd Erlas
- Canolfan Eco
- Safleoedd hanesyddol Wrecsam

Soniodd dros chwarter y bobl a ymatebodd am doiledau a chyfleusterau newid.

Roedden nhw am weld mwy ohonyn nhw ledled Wrecsam.

Soniodd pobl fod mynediad at gymorth.

Dywedasant fod y cynllun Mannau Diogel ac argaeledd cymorth **trydydd sector** yng nghanol y dref yn dda.

Roedd mynediad at wasanaethau, hamdden, addysg a chymdeithasu hefyd yn dda.

Dywedodd pobl fod angen mwy ohono a chefnogaeth i ymuno.

Soniodd pobl am Gymorth a diogelwch.

Awgrymodd un ymatebydd:

“Ceidwaid tref i gefnogi trigolion sydd â nam golwg a rhai sydd â llai o allu”

Gofynnodd rai am well cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol.

Pethau fel gwasanaeth galw heibio gyda Meddyg Teulu / mân anafiadau a gwasanaeth cyngor.

Pan ofynnwyd beth oedd pobl eisiau gweld mwy ohono, dyma gafodd ei gynnwys:

- Cludiant hygyrch

- Toiledau

- Darpariaeth chwarae

- Amgylcheddau croesawgar



- Mannau agored gwyrdd

Gofynnodd pobl hefyd am weld mwy o gymorth a gwasanaethau fel:

- seibiant i ofalwyr.
- mynediad agored at gymorth iechyd meddwl.
- gwasanaethau galw heibio.
- Eiriolaeth.

Dangosodd c**ynhwysiant ac amrywiaeth** yn gryf yn yr atebion.

Pwysigrwydd ystyried pob dinesydd.

Yn arbennig y rhai sydd efallai wedi eu heithrio neu ar yr **ymylon**.

- Gofalwyr ifanc.
- pobl sy'n byw â salwch meddwl.
- pobl LHDTC o bob oedran.
- pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwro-ddargyfeiriol.
- pobl ddigartref.
- Rhieni newydd.

Beth sydd ar goll i bobl sydd ag anableddau yn Wrecsam?

Bu i'r cwestiwn hwn gyflwyno ymatebion o ran cael eich derbyn, llais a phresenoldeb mewn cymdeithas.

Roedd bod yn rhan o'r gymuned a "chael rhywun i wrando arnoch" yn thema gref.

Pwysig i lawer o ymatebwyr:

- Cymuned.
- Ffrindiau.
- Chael mannau cymdeithasol ble gall unigolion deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu cefnogi.

"Ymwybyddiaeth ac empathi gan y cyhoedd a sefydliadau"

Roedd yr atebion i'r hyn sydd ar goll yn dangos nad yw pobl bob amser yn teimlo y gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Soniodd y bobl a atebodd am grwpiau ar gyfer pobl anabl yr oeddent yn eu hystyried yn dda fel:

- love2meet you
- gig-buddies
- Y caffi ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun

Roedd eraill am gael cyfleoedd i integreiddio a chymryd rhan mewn fforymau prif ffrwd a digwyddiadau cymunedol.

Mae hyn yn golygu gallu mynd i ddigwyddiadau a lleoedd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer pawb, nid yn unig i bobl ag anableddau.

Sut ydych yn meddwl gallwn wella?

Roedd cael rhywun i wrando arnynt yn thema gref yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn.

"Gwrandewch ar bobl anabl â meddwl agored a phan rydych yn meddwl eich bod yn deall gwrandewch am ychydig eto"

"Pobl wir yn cael rhoi eu barn ar wasanaethau a sut maent yn gweithio"

"Dod a'r gymuned ynghyd er mwyn i ni gyd allu cefnogi ein gilydd"

Themâu

Cyrraedd a defnyddio Llefydd yn Wrecsam

- Sicrhau y gall pawb gael mynediad at gyfleusterau, gwasanaethau, cyfleoedd a chefnogaeth.
- Creu cyfleoedd hygyrch ar gyfer lles, gwaith, hamdden a dysgu

- Gwneud yr holl gyfleusterau yn hygyrch:
  - Cludiant.
  - Siopau.
  - Toiledau.
  - Adeiladau cyhoeddus.
  - Mannau chwarae a mannau gwyrdd.

Pwy sy'n eu defnyddio?

- Ystyried pawb, yn enwedig y rhai a all fod wedi'u heithrio neu'n anodd eu cyrraedd.
- Cael gwared ar rwystrau a gwneud llefydd a gweithgareddau yn hawdd i fynd iddynt ac yn hawdd eu defnyddio.
- Creu cymuned sy'n derbyn ac sy'n gefnogol, sy'n gwerthfawrogi a pharchu pawb.

Cymorth a gwasanaethau

- Helpu pobl i gael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Hysbysebu'r hyn sydd ar gael fel y gall pawb wybod amdanynt.
- Mynediad agored at gyngor a gwybodaeth.
- Cymorth dynol.

Dweud eich dweud

- Creu ffyrdd newydd cyffrous o gysylltu â phobl. Eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Gwella mynediad at eiriolaeth a chefnogi hunan-eiriolaeth.
- Cynnwys pobl wrth ddatblygu a chynnal gwasanaethau.

Camau nesaf



Beth ddylid ei wneud nesaf?

Daeth yr ymgysylltiad a'r **dadansoddiad** hwn o hyd i negeseuon pwysig.

Dylai'r negeseuon hyn fod yn natblygiad y ganolfan les.

Mae'r holiadur hwn wedi nodi camau i symud datblygiad y ganolfan les yn ei flaen.

Dyma'r camau:

- Parhau i ofyn i bobl Wrecsam am y ganolfan les a'r materion a godwyd.
- Cynllunio gyda phobl Wrecsam a'u cynnwys wrth greu atebion a gwelliannau.
- Estyn allan i bobl Wrecsam sy'n anodd eu cyrraedd i wneud yn siŵr eu bod yn gallu ymuno.

- Cyfathrebu'n agored a chynnwys pobl Wrecsam wrth gynllunio.
- Datblygu cyfleusterau sy'n dod a'r gymuned ynghyd a hyrwyddo lles.
- Cyfathrebu'n glir am yr hyn sydd ar gael.

- Yr hyn sy'n bwysig yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.
- Sut y gall pobl gefnogi'r hyn sydd ar gael yn y ganolfan les.
- Sut i gael mynediad at yr hyn sy'n cael ei gynnig.

Cyfranwyr

Y grŵp SGW

- Nick Bettis, Peter Davies, Lynn Williams
- Sarah Roberts, Alicia Gough
- Anthony Davies, Jane Enamu Leonard

Hwylusydd SGW

- Nicole Mitchell-Meredith
- Debbie Jackson

Hawdd ei ddeall / Haws ei ddeall

- Nicole Mitchell-Meredith

Adolygwr

- Kay Board

Cyfranogwyr

- 42 cyfranogwr

Diolch i bawb a ymatebodd i'r arolwg hwn a rhoi eu barn a'u profiadau